# 10 PETH PWYSIG I'W GWNEUD!

Un Llais Cymru
One Voice Wales

## 1 DEFNYDDIWCH Y PWERAU CYWIR

Mae'n bwysig bod Cynghorau'n gweithredu o fewn y gyfraith. Mae llawer o bwerau ar gael.
Gall Un Llais Cymru roi cyngor ar y pŵer cywir. Gofynnwch i'ch Swyddog Datblygu am help i ddewis y pŵer cywir.

## 2 PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL (GPOC)

"Pŵer dewis cyntaf." A ydych yn gymwys i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol? Os felly, rhaid i chi fabwysiadu penderfyniad bob blwyddyn i gadarnhau eich bod yn dal yn gymwys. Gwnewch hyn ym mhob Cyngor Blynyddol dilynol.

Mae Un Llais Cymru wedi cynhyrchu'r ffurf enghreifftiol hon o eiriau y gallwch eu haddasu.

Penderfynwyd bod y Cyngor yn ailddatgan ei gymhwysedd i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn ystod 2024/25 ar y sail ei fod yn parhau i fodloni'r meini prawf cymhwysedd.

## 3 A137

"Pŵer pan fetha popeth arall." Gallwch ddefnyddio hwn os nad oes pŵer penodol arall yn bodoli. Yr uchafswm y gallwch ei wario bob blwyddyn gan ddefnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd yw £10.81 fesul etholwr. Mae hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn ac yn cael ei hysbysu i Gynghorau gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i chi basio penderfyniad bob tro rydych chi am ei ddefnyddio.

Mae Un Llais Cymru wedi cynhyrchu'r ffurf enghreifftiol hon o eiriau y gallwch eu haddasu.
" yn unol â'r pŵer a roddwyd gan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) a chan ei bod o'r farn bod y gwariant yn bodloni gofynion yr adran honno, cymeradwyir gwariant hyd at £** mewn perthynas â'r uchod ** ."

## 4 CYMERADWYO EICH RHEOLIADAU ARIANNOL

Mae Un Llais Cymru wedi dosbarthu rheoliadau ariannol enghreifftiol 2024 i'ch Cyngor eu hystyried a'u gweithredu fel y bo'n briodol. Maent yn esbonio sut y dylai eich Cyngor eu haddasu i weddu i'ch gofynion penodol.
Mae'n bwysig bod pob Cyngor yn mabwysiadu Rheoliadau Ariannol yn ffurfiol ac yn eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, neu'n amlach os bydd amgylchiadau'n newid.

## 5 CYMERADWYO EICH RHEOLAU SEFYDLOG

Mae Un Llais Cymru wedi dosbarthu rheolau sefydlog enghreifftiol i'ch Cyngor eu hystyried a'u gweithredu fel y bo'n briodol. Mae'n bwysig bod pob Cyngor yn mabwysiadu rheolau sefydlog yn ffurfiol i ddarparu fframwaith llywodraethu cadarn a'u hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, neu'n amlach os bydd amgylchiadau'n newid.



# 10 PETH PWYSIG I'W GWNEUD!

Un Llais Cymru
One Voice Wales

## 6 GWEITHGAREDDAU ERAILL

Mae cymaint o dasgau eraill i'w gwneud bob blwyddyn. Dyma rai o'r rhai pwysig.

- Cynhyrchu Cofrestr Risg a'i hadolygu'n flynyddol.
- Cynhyrchu Cynllun Hyfforddi ar ôl pob etholiad cyffredin a'i adolygu'n flynyddol.
- Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol.
- Cymeradwyo lwfansau i aelodau, cyhoeddi'r manylion a hysbysu'r IRP.



Gall Un Llais Cymru eich cyfeirio at enghreifftiau o arfer gorau i'ch helpu.

## 7 MABWYSIADU'R COD YMDDYGIAD

Dylai pob Cyngor fabwysiadu'r cod ymddygiad statudol. Dylai aelodau gytuno i gadw ato pan fyddant yn llofnodi eu datganiad swydd.



Mae Un Llais Cymru yn darparu hyfforddiant ar y cod ymddygiad. Rydym yn annog Aelodau a Chlercod i gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant. Gall yr Ombwdsmon ofyn am hyfforddiant os oes cwyn i ymchwilio iddi.

## 8 MAE HYFFORDDIANT YN HOLLBWYSIG

Mae hyfforddiant i Aelodau mor bwysig. Gall hyfforddiant anghyson arwain at fylchau mewn gwybodaeth a chymhwysedd, a all rwystro penderfyniadau ac arweinyddiaeth effeithiol. Gallwch chi bob amser ddysgu mwy!



Mae Un Llais Cymru yn darparu set gynhwysfawr o fodiwlau hyfforddi ar draws meysydd allweddol. Mae lleoedd am ddim ar gael. Rydym yn annog pob Cyngor i gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant.

## 9 PEIDIWCH AG ANGHOFIO TALU EICH FFIOEDD AELODAETH

Mae cymaint o fanteision i fod yn aelod o Un Llais Cymru. Credwn fod ein gwasanaethau yn cynrychioli gwerth mawr a chefnogaeth i Gynghorau.




Mae aelodaeth yn rhedeg o 1 Ebrill i 31 Mawrth bob blwyddyn. Ein nod yw anfon llythyrau adnewyddu ac anfonebau i Gynghorau erbyn diwedd mis Chwefror.

Ceisiwn fod yn hyblyg a chaniatáu amser i Gynghorau dalu, ond weithiau mae'n rhaid i ni atal aelodaeth os yw'r taliad yn hwyr iawn. Mae hyn yn golygu fod Cynghorau'n colli manteision niferus bod yn Aelod.

## 10 YN OLAF, RHOWCH WYBOD I'R AELODAU!

Mae Un Llais Cymru yn cylchredeg gwybodaeth am hyfforddiant, ymgynghoriaeth, ymgynghori, canllawiau, a phynciau eraill yn ymwneud â gwaith Cynghorau Cymuned a Thref.



Rydym yn annog Clercod i anfon gwybodaeth at bob Aelod. Ei wneud cyn gynted â phosibl, neu efallai yn wythnosol?